**Y Pasg**

**Darlleniad: Mathew 24:1-24**

Diolchwn i ti ein Tad am newyddion syfrdanol dy Air iti atgyfodi dy fab, Iesu Grist, o'r bedd yn fyw, ac am gyfle'r oedfa hon i ddathlu hynny mewn gorfoledd a llawenydd mawr. Cydnabyddwn nad ydym fel meidrolion yn deall y dirgelwch rhyfedd hwn, na chwaith yn abl i'w egluro â'n geiriau brau. Ond gwyddom trwy dy Air mai dirgelwch dy gariad anfeidrol ydyw, a bod dy fab Iesu Grist mor fyw heddiw ag erioed. Yn wir, ein Tad, dyma yw ein ffydd a'n gobaith – fod Iesu Grist yn Arglwydd bywyd a marwolaeth, ac mai yn ei law ef y mae dyfodol ein bywyd.

Diolchwn i ti, ein Tad, am dystiolaeth dy Air i brofiadau amrywiol y disgyblion ar fore'r trydydd dydd – rhai yn credu ar ôl amau, ac eraill yn credu yn y fan a'r lle. Cydnabyddwn ein bod yn debyg iawn i'r disgyblion gynt, yn credu, ac eto'n llithro yn aml i anghrediniaeth. Ond bendigwn dy enw mai dod at rai fel ni wnaeth dy fab, Iesu Grist. Cofiwn y disgyblion yn ofnus yn yr oruwchystafell a drysau eu meddyliau wedi cau, y ddau ddisgybl yn cerdded adre i Emaus yn isel eu hysbryd ac yn wag eu calon, a Mair yn ei dagrau yn yr ardd yn gweld y bedd heb adnabod ei Harglwydd.

O! Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a ddaeth at y disgyblion er bod y drysau wedi eu cloi, tyrd atom ni hefyd i'r oedfa hon. Datglo ni, a thyrd i mewn, fel y teimlwn wres dy gariad yn cynhesu ein calonnau, a chyfarchiad dy Air, 'Tangnefedd i chwi', yn gwefreiddio ein heneidiau.

O! Arglwydd, diolchwn i ti am ein hanrhydeddu â'th bresenoldeb yn yr oedfa hon. Dy bresenoldeb sy'n rhoi blas nefol ar ein cymdeithas ac yn peri i ni sylweddoli fod mwy i'r cyfarfod hwn na chwmni ein gilydd, oherwydd, fel y dywedaist wrth dy ddisgyblion gynt, 'lle y mae dau neu dri wedi dod ynghyd yn fy enw i, yr wyf yno yn eu canol hwynt'.

Bendigwn dy enw am dy addewid gwerthfawr i fod gyda ni yn y canol, ac am nad yw dy bresenoldeb yn dibynnu ar nifer ein cynulleidfa, na chwaith ar gryfder ein ffydd ynot ti. Cyffeswn ein llesgedd ysbrydol a'n diffyg ffydd yn aml, ond nid ydym heb obaith, oherwydd yr wyt ti gyda ni i'n nerthu yn ein gweddi, ac i'n hysbrydoli yn ein gwaith.

Gweddïwn dros dy Eglwys yn ei chenhadaeth fawr yn y byd. Yn dy drugaredd, gwna hi yn offeryn cân i lawenydd yr efengyl, ac yn gartref bendith i bwy bynnag sy'n credu ynot ti. O! Arglwydd, llwydda waith dy Eglwys ar yr ŵyl arbennig hon. Planna neges dy Air yng nghalonnau dy genhadon, a nertha hwy i gyhoeddi'r newyddion da o lawenydd mawr. Gweddïwn ar iti agor meddyliau dy bobl i ddirgelwch dy atgyfodiad, ac i'w cyflwyno eu hunain o'r newydd i feddyginiaeth dy gariad.

Gweddïwn dros dy Eglwys yn lleol ac yn y tÿ hwn. Erfyniwn dy fendith ar ein gwasanaethau, fel y bydd ein haddoliad yn destun clod i ti, ac yn gyfrwng cenhadaeth yn ein plith. Gweddïwn dros ein cyfeillion a'n cydnabod sy'n methu credu efengyl y bedd gwag. O! Arglwydd, defnyddia ni i'w tywys i awyrgylch addoliad dy Eglwys. Yn dy dosturi, meddala eu calonnau â grym yr Ysbryd Glân, agor eu meddyliau â gwirionedd dy Air, a llanw wacter eu bywydau â gorfoledd dy gariad.

Yn ein gweddïau, ein Tad, cyflwynwn ein hanwyliaid, ein cyd-aelodau a'n gilydd i'th sylw cariadus. Yn dy allu mawr, yr wyt yn gwybod am ein holl anghenion. Diolchwn am dy ofal llwyr ohonom. Gweddïwn ar i ti estyn dy ofal dros y cleifion a'r henoed, a phawb o'th blant sy'n amddifad o gariad. Clyw ein cri drostynt ac ateb ni yn ôl dy drugaredd a'th ddoethineb yn enw ein Gwaredwr byw Iesu Grist. Amen.

***John Lewis Jones***